Llythyrau

Ad-drefnu Addysg yn ardal Bro Dysynni

Annwyl Olygydd,

RWYF yn credu fod cymunedau gwledig Gwynedd yn hollol hanfodol i ffyniant y Gymraeg. Maen nhw'n greiddiol i'n hunaniaeth ni fel Cymry. Gwn hefyd fod y cymunedau yma dan fygythiad wrth i bobol ifanc adael i chwilio am waith.

Dyna pam y credaf fod rhaid i ni newid : newid er mwyn diogelu'r hyn sydd yn werthfawr i ni.

Os na wnawn ni rhywbeth positif yn fuan iawn ym Mro Dysynni, fe fydd yr ysgolion yn cau eu hunain wrth i rieni symud eu plant i ysgol sydd yn cynnig gwell dyfodol yn nhermau niferoedd disgyblion.

Fe ddigwyddodd hyn yn Llawr y Betws ger Y Bala. Roedd y rhifau wedi gostwng ac ym Medi 2008, fe symudodd y rhieni eu plant i ysgolion eraill yn yr ardal. Ydy hyn yn deg i blant, rhieni ac athrawon? Ydy hi'n deg gadael i ysgolion gau yn ddi-drefn a di-gynllun? Onid ydy hi'n well i gynllunio a chreu dyfodol mwy sefydlog? Fy mhryder yw y bydd gwneud dim yn golygu y bydd rhieni yn symud eu plant fesul dipyn draw i Dywyn - ac y bydd yr ysgolion gwledig wedi mynd mor fach y bydd yn amhosib eu cynnal.

Dyna pam yr wyf yn cefnogi ad-drefnu yn yr ardal. 'Dwi'n meddwl fod 'na gyfle gwych yma i ddod a 4 ysgol at ei gilydd mewn un ysgol ardal newydd. Gall hyn fod yn hwb sylweddol i'r ardal. Bydd rhieni yn gallu teimlo sicrwydd ynghylch dyfodol addysg eu plant a gall y cymunedau sy'n bwydo'r ysgol elwa yn sgil hyn: dyma arwydd o hyder y Cyngor yn yr ardal. Arwydd ein bod yn malio ac isio gwneud rhywbeth i helpu.

Rwy'n cydymdeimlo efo'r pryder ynglŷn â chludo plant bychain i'r ysgol. Ond rwy'n siŵr, wrth i gynlluniau'r ysgol newydd ddwyn ffrwyth y bydd modd trafod yr opsiynau gorau ar gyfer yr ardal. Rwy'n hyderus y gall y Cyngor weithio efo rheini ac athrawon i sefydlu dulliau diogel o gludiant. O ran yr effaith ar yr amgylchedd - mi fydd cau 5 ysgol yn golygu arbed llawer o ynni - llawer mwy na fydd y cludiant ychwanegol yn ei greu.

Mae bywyd cymunedol yn un gymysgfa gymhleth o weithgareddau. Dydw i ddim yn credu yn y slogan "Cau ysgol = Lladd cymuned" . Mae llawer mwy i fywyd cymunedol nag ysgol - llawer yn digwydd gyda'r nos, yn y dafarn neu ganolfan gymunedol neu gapel neu eglwys. Strwythur o frics a mortar yw ysgol ble mae plant yn cael eu dysgu rhwng 9 a 3. Yn amlwg, mewn rhai cymunedau mae'r adeilad yma'n ganolbwynt i fywyd y gymuned ac mae'n rhaid canfod ffyrdd i gynnal hyn. Ond nid dyma'r sefyllfa mewn llawer i gymuned.

Mae bywyd cymunedol yn parhau tu hwnt i adeilad yr ysgol a thu hwnt i'w giatiau. Gaf i fod mor hy ag awgrymu fod bywyd y gymuned yr hyn mae'r gymuned ei hun yn ei chreu ac yn dymuno ei chreu? Mae'r holl ddarogan gwae am ddyfodol y cymunedau Cymraeg yn ddinistriol - mae pobol yn dechrau credu nad oes gobaith. Ond mae 'na obaith - drwy newid a thrwy fod yn hyderus.

Fel Cynghorydd Sir, mae gen i ddyletswydd i feddwl am ddyfodol POB un o'n cymunedau ni - a PHOB plentyn yng Ngwynedd. Dim ond un gyllideb sydd gennym ni ac mae'n rhaid iddi gael ei rhannu'n decach ar draws y sir. Rwy'n credu hefyd fod yr ad-drefnu yn cynnig cyfleoedd newydd a chyffrous i ardaloedd fel Dysynni - cyfleoedd fydd yn eu helpu i ddiogelu eu dyfodol - rhywbeth sy'n holl-bwysig i ni gyd.

Yn gywir,
Siân Gwenllïan
(Plaid Cymru)